Projectau Arfaethedig ar gyfer Ymweliad CFfI Maldwyn yn 2010

Timau

Er mwyn gallu cwblhau'r ddau broject, bydd y grˇp yn cael ei rannu yn ddau dîm – bydd hyn hefyd yn creu elfen gystadleuol ac yn herio pawb sy'n cymryd rhan i wneud eu gorau ac i geisio curo'r tîm arall. Byddai'n ychwanegu llawer at y ffilm os bydd hynny'n cael ei wneud – a chynorthwyo'r gymuned ymhellach .

Gall y timau gael eu rhannu ym mha bynnag fodd fyddai CFfI Maldwyn yn dymuno gwneud hynny, a bydd enw Swahili yn cael ei roi ar y ddau dîm.

Diwylliant

Mae trigolion Kenya yn falch iawn o'u treftadaeth a'u diwylliant – yn union fel y mae trigolion Cymru yn falch o'u Cymreitod! Yn y drefnlen, mae prynhawn o gyfnewid diwylliant wedi'i nodi, lle y bydd y gymuned yn dod at ei gilydd i ganu a dawnsio i chi. Byddai'n wych petaech chi hefyd yn gallu dod ag ychydig o ddiwylliant Cymru gyda chi i'w ddangos i bobl Kenya. Er enghraifft, gallech ganu cân Gymraeg, dod â llwy garu, neu rywbeth fyddai'n cynrychioli diwylliant Cymreig. Byddai hyn yn wych i bawb, ac yn dda ar gyfer y ffilmio – oherwydd byddwch chi'n cael y cyfle i ymuno â'r Kenyaid mewn dawns! Mae'n llawer o hwyl ac yn brofiad arbennig.

Tynnu Rhaff

Fel rhan o'r cyfnewid diwylliant Cymreig, i gael ychydig o hwyl ac i ddysgu chwaraeon newydd i'r plant. Gallai tîm gael ei ffurfio i gyflwyno Tynnu Rhaff gyda hyfforddiant yn ystod yr wythnos a chystadleuaeth ar y diwedd, pan fydd y maes chwaraeon yn cael ei agor, rhwng y Gymuned a'r CFfI. Byddai hyn yn llawer o hwyl ac yn rhywbeth na fydden nhw wedi ei weld o'r blaen – felly byddech yn torri tir newydd! Ac unwaith eto, byddai hyn yn wych ar gyfer y ffilm.

Y Projectau

Ar ôl ymgynghori â'r gymuned, penderfynwyd mai'r ddau broject isod fyddai fwyaf addas ar eu cyfer nhw, ac i chi eu cwblhau yn ystod y daith. Maen nhw'n dangos y ddwy ochr i CFfI – y cysylltiad â ffermio, a'r cysylltiad ehangach trwy ddefnyddio chwaraeon fel enghraifft. Teimlwyd y byddai'n haws i chi godi arian os fyddech chi'n gwneud rhywbeth gwahanol i dd˘r a charffosiaeth – sef beth mae pobl fel arfer yn meddwl amdano wrth godi arian i Kenya. Felly mae'r projectau yn wahanol, dylent apelio at yr aelodau a bydd pawb yn gallu cymryd rhan.

Project 1 – Canolfan Datblygu Chwaraeon Cymunedol
Mae gan yr Ysgol Uwchradd yn Plateau gae anferth sydd wedi'i neilltuo ar gyfer chwaraeon, ond dyna'n union beth ydy o – cae yn unig! Does dim cyfleusterau, dim ond dau bostyn gôl, a phêl-droed yw'r gêm fwyaf poblogaidd. Mae hynny'n bennaf gan nad oes offer i hyfforddi ar gyfer unrhyw chwaraeon arall ar gael yno.

Mae'r ysgol a'r gymuned yn awyddus iawn i'r cae fod yn ganolfan i'r holl gymuned leol – i'w ddefnyddio fel cyfleuster chwaraeon hamdden, yn ogystal ag i hyfforddi athletwyr ifanc talentog.

Mae'r ardal yn enwog am gynhyrchu rhai o redwyr gorau Kenya, ond does gan ardal Plateau ddim maes hyfforddi, ac mae unrhyw athletwyr sydd â photensial yn gorfod teithio 3 awr i gyrraedd maes hyfforddi yn Iten. Dydy'r pellter yma ddim yn fforddiadwy nac yn ymarferol i lawer, ac felly mae llawer o sêr ifanc yn cael eu rhwystro rhag cyrraedd eu potensial, a rhag unrhyw lwyddiant.

Rhedeg a chwaraeon yw dau o'r ychydig ffyrdd realistig y gall plant wella eu dyfodol yn ddramatig. Byddai llawer o blant drwy ennill ysgoloriaethau chwaraeon i golegau dramor yn cael cyfle ac addysg na fydden nhw wedi gallu breuddwydio am eu cael fel arall.

Byddai cael cae chwarae go iawn gyda chyfleusterau fel trac rhedeg, pit naid hir, naid uchel, pêl-rwyd, pêl-fasged, a chae pêl-droed wrth gwrs, yn gwneud byd o wahaniaeth i'r gymuned leol a'i phlant. Mae'r ysgol eisoes yn cynnal sesiynau hyfforddi yn ystod gwyliau'r haf, ac yn gweithio'n galed i geisio helpu'r plant i ddatblygu. Byddai'r cyfleusterau yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol – i helpu'r plant i gyrraedd eu potensial ac ysgoloriaeth bosib.

Mae'r project hwn yn un bywiog a llawn hwyl – byddai aelodau CFfI yn gallu helpu i adeiladu a gosod y cyfleusterau, yn ogystal â chreu timau gyda'r plant a threfnu diwrnod chwaraeon ar gyfer diwrnod agor y cyfleusterau. Mae'r plant mor awyddus, mae eu brwdfrydedd yn heintus, ac maen nhw'n hynod o gystadleuol!

Byddai'r cyfraniad ariannol yn talu am y:
Deunydd adeiladu ar gyfer y cyfleusterau
Pobl â sgiliau ar gyfer y gwaith os oes angen
Offer chwaraeon megis peli, rhwydi, stopwats ayb.
Gwobrau ar gyfer y diwrnod chwaraeon
Hyfforddiant i staff i ofalu am y cae chwarae
Tir caeedig i wartheg yr ysgol (maen nhw'n rhydd ar hyn o bryd)

Project 2 – Ysbyty Plateau a Fferm Gymunedol
Mae Ysbyty Plateau yn ffodus iawn o fod â 60 acer o dir ers iddo gael ei ffurfio yn yr 1950au. Dylai'r tir fod yn adnodd gwerthfawr i'r ysbyty a'r gymuned, ond oherwydd problemau blaenorol gyda rhedeg yr ysbyty, mae'r tir wedi cael ei adael heb ei drin. Mae'r tîm rheoli presennol yn flaengar iawn, a thrwy gydweithio ag Ampath – HIV/AIDS – NGO, maen nhw wedi llwyddo i blannu llysiau mewn darn 2 acer o'r tir. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o ymladd yn erbyn HIV/AIDS, oherwydd fe brofwyd fod maeth da yn cyfrannu cymaint â chyffuriau at oroesiad dioddefwyr. Mae Steve Lewis yn gyn-aelod CFfI o Gymru, ac yn gyfrifol am y rhaglen ffermio – ac mae o wedi amlinellu project ar gyfer ieir a dofednod dodwy.

Mae dofednod yn ffynhonnell fwyd wych (wyau a chig), maen nhw'n hawdd i'w cael, ac yn hawdd i'w cadw. Maen nhw'n addas iawn ar gyfer datblygiad ffermio cynaliadwy gyda chyllideb gyfyngedig.

Byddai'r project yn golygu cael y cydrannau canlynol i bob 200 aderyn:
Ffensio 2 gae bychan addas i gadw'r adar
Adeiladu lloches syml gyda bocsys wyau
Prynu man dodwy cywennod
Prynu digon o fwyd ar gyfer cylchred ddodwy wyau
Hyfforddi gweithiwr/gofalwr dofednod

Byddai'r wyau yn cael eu casglu a'u defnyddio ar gyfer prydau bwyd a maeth yn yr ysbyty, a'u rhoi ar hambwrdd i'w gwerthu yn lleol. Mae galw sylweddol am hynny – ac mae dwsin o wyau yn tua 85 ceiniog. Byddai'r pres sydd wedi cael ei godi wrth werthu yn cynnal y busnes dodwy, ac yn helpu i brynu bwyd i'r dofednod, ieir newydd i ddodwy ayb. Byddai'r ieir blinedig yn cael eu prosesu a'u defnyddio ar gyfer prydau bwyd yr ysbyty, a'u gwerthu yn lleol unwaith eto.

Y gost i gadw 200 o adar yw £700. Byddem yn cynyddu nifer yr adar yn dibynnu ar faint y cyfraniad ariannol.

Codi Arian a Chefnogaeth
Bydd Sarah Chapman yn helpu ym mhob ffordd posib gyda chodi arian, hyrwyddo'r daith, a sicrhau ffilmio'r daith gobeithio.

Hyrwyddo – gallai Sarah ymweld â'r clybiau mwyaf a gwneud cyflwyniad ar y daith, ac ac Kenya. Mae rhieni yn aml iawn â'u pryderon hefyd, felly gallan nhw ffonio i siarad am unrhyw gwestiynau allai fod ganddyn nhw – neu drefnu i gyfarfod fel gr˘p.
Codi arian – byddwn ni'n darparu cymaint o wybodaeth gefndirol â phosib, ac unrhyw luniau ayb, i helpu gyda'r deunydd codi arian. Os fyddwch chi'n cynnal unrhyw ddigwyddiadau, gall Sarah ddod i wneud cyflwyniad byr ar bwysigrwydd y project i'r gymuned yn Kenya. Bydd costau'r

project yn fanylach ar gael hefyd, er mwyn i bobl weld sut mae’r arian wedi cael ei wario.

Ffilm – gall Sarah helpu gyda gwybodaeth a syniadau fydd eu hangen ar gyfer ffilmio yn Kenya.